**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**
**(Rheol 20(3) Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2) (Cymru) 2021)**

**22 Tachwedd 2024**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) ac Edgar Owen (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Prif Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Linda Roberts (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Gary Williams (Cyngor Sir Ddinbych) ac Iwan Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Swyddogion Statudol**
Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid) ac Iwan Evans (Swyddog Monitro).

**Swyddogion eraill yn bresennol**
Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol), Iain Taylor (Ymgynghorwr AMION Consulting), Claire Incledon (Cyfreithiwr), Jack Latkovic (Swyddog Democratiaeth Cydbwyllgor Corfforedig) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**Ymddiheuriadau:**

- Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Dirprwyo - Cyngor Gwynedd)
- Y Cynghorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Môn) gyda'r Cynghorydd Robin Williams yn dirprwyo.
- Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam) gyda Linda Roberts yn dirprwyo
- Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) gyda Gary Williams yn dirprwyo
- David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig),

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**
**(Rheol 20(3) Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2) (Cymru) 2021)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd** | 22 Tachwedd, 2024 |

**PWNC**

Eitem 5: DIWEDDARIAD: SWYDDOGAETHAU BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU – TROSGLWYDDO I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

**PENDERFYNIAD:**

**Derbyn y diweddariad cynnydd ar y gwaith i sefydlu CBC y Gogledd, gan gynnwys trosglwyddo'r Cynllun Twf a symud ymlaen ar dasgau sy'n ofynnol i gyflawni swyddogaethau statudol y CBC.**

**Cytuno i dderbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Portffolio yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn rhoi diweddariad pellach ar gynnydd y trosglwyddo gan gyfeirio at y Cynllun Datblygu Strategol.**

**Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i gytuno ar raglen a dyddiad trosglwyddo ddiwygiedig gyda'r Awdurdodau Lleol a phartneriaid Addysg Uwch ac Addysg Bellach o fewn y dyddiad targed o 1 Ebrill, 2025.**

**Cymeradwyo estyniad o'r trefniant dros dro i Gyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ymgymryd â rôl Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar sail dros dro am ddau ddiwrnod yr wythnos hyd at 31 Mawrth, 2025 neu'r dyddiad trosglwyddo, yn dibynnu p'un fydd gyntaf.**

**CANLYNIAD Y PLEIDLEISIAU**

| | |
|---|---|
| O blaid | 5 |
| Atal | 0 |
| Yn Erbyn | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro y CBC am ran olaf o'r adroddiad oedd yn ymwneud ag ymestyn ei secondiad yn y rôl. Roedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y rhan yma o'r drafodaeth.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**
**(Rheol 20(3) Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2) (Cymru) 2021)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd** | 22 Tachwedd, 2024 |

---

**PWNC**

Eitem 6: PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM – DIWEDDARIDAD AR GYNNYDD

---

**PENDERFYNIAD:**

**Adolygu a cymeradwyo'r Safleoedd Treth a adnabuwyd (Porth Glannau Dyfrdwy, Warren Hall ac Stad Ddiwydiannol Wrecsam) ac Ardaloedd Ardrethi a Gedwir (Porth Glannau Dyfrdwy ac Stad Ddiwydiannol Wrecsam).**

**Adolygu a cymeradwyo'r Model Llywodraethu gyffredin arfaethedig.**

**Adolygu a cymeradwyo Themâu'r Parth Buddsoddi (Arloesi, Sgiliau a Thrafnidiaeth) a'r ymyriadau lefel uchel, a fydd yn cael eu mireinio fel rhan o Borth 4 (Ymyriadau) ac yn ystyried cynnwys 'Cymorth Busnes' fel y pedwerydd thema, sy'n ymdrin â'r bwriad i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn busnesau gweithgynhyrchu uwch gyda chyngor a chyllid grant.**

---

**CANLYNIAD Y PLEIDLEISIAU**

| | |
|---|---|
| O blaid | 5 |
| Atal | 0 |
| Yn Erbyn | 0 |

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol nac unrhyw fater protocol.